Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4751A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Amcanion a chwmpas ein gwaith 5

Canfyddiadau allweddol 5

Cynllunio gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid 6

Cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid 8

Ymateb i weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid 11

Monitro ac addasu gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid 12

Argymhellion 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 16

Atodiad 2 – Ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 18

# Cyflwyniad

1 Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn gyfrifol am greu a darparu gwasanaethau digidol a data ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. I gyflawni ei rôl, rhaid iddo weithio'n adeiladol gyda rhanddeiliaid eraill i gynllunio, cyflwyno a chynnal gwasanaethau digidol.

2 Cyllidir IGDC gan Lywodraeth Cymru a chan gyrff eraill y GIG yng Nghymru. Yn 2024-25, cafodd £131.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Cafodd hefyd gyllid cylchol o £7.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ymateb i COVID-19 a £30.3 miliwn o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol.

3 Er mwyn i IGDC gyrraedd ei nod i fod yn bartner dibynadwy, rhaid iddo ddangos:

- ei fod yn deall anghenion ei randdeiliaid;
- ei fod yn ymateb yn briodol i'r anghenion hynny; a hefyd
- ei fod yn darparu adenillion da ar y buddsoddiad.

4 Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid IGDC yn deall yr amgylchedd gweithredu y mae'n gweithio ynddo a'r risgiau a'r heriau y mae'n eu hwynebu.

5 Ym mis Ebrill 2024, fe gomisiynodd IGDC adolygiad rhanddeiliaid annibynnol dan arweiniad Atos[1]. Fe wnaeth yr adolygiad dargedu ystod eang o randdeiliaid sy'n gweithio ac yn rhyngweithio gydag IGDC. Cafodd IGDC adroddiad Atos ym mis Medi 2024, ac rydym wedi ystyried ei ymateb iddo yn ystod ein hadolygiad ni.

6 Rydym hefyd yn nodi, oherwydd rhai pryderon ynghylch gallu'r sefydliad i gyflawni nifer o raglenni mawr yn effeithiol, bod Llywodraeth Cymru wedi uwchraddio IGDC i 'lefel 3' ar ei fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd. Mae faint o hyder sydd gan y GIG ehangach yn y modd y mae IGDC yn cyflawni ei raglenni allweddol yn hanfodol. Mae ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid yn elfen allweddol ar gyfer meithrin yr hyder hwnnw.

7 Yn ystod ein hadolygiad ni, fe adnabuom rai materion strategol ehangach gyda gwasanaethau digidol yn GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys argaeledd cyllid cyfalaf, y cydbwysedd rhwng rhaglenni digidol cenedlaethol a lleol, arweinyddiaeth ddigidol, a rolau a chyfrifoldebau. Mae'r rhain y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu bwrw golwg fanylach ar y materion hyn yn ein hadolygiad o drawsnewid digidol yn 2025.

[1] Mae Atos yn arbenigo mewn seiberddiogelwch, cwmwl, profiadau cyflogeion, technoleg ddigidol a gwasanaethau trawsnewid.

## Amcanion a chwmpas ein gwaith

8 Amcan ein hadolygiad oedd archwilio a oes gan IGDC ddull effeithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn unol â'i nodau strategol. Nid ailadrodd gwaith Atos, a geisiodd farn rhanddeiliaid, yw nod y gwaith hwn. Yn hytrach na hynny, mae ffocws ein hadolygiad ni ar effeithiolrwydd y dull strategol a gweithredol o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae ein gwaith archwilio'n asesu dull IGDC ar gyfer cynllunio gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, ei gyflawni, ymateb iddo a'i oruchwylio. Rydym wedi darparu argymhellion lle bo gwelliannau'n ofynnol.

9 Fe wnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod wedi'i argyhoeddi bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd o ran sut y mae'n defnyddio ei adnoddau.

10 Fe wnaethom ni ein gwaith rhwng mis Medi 2024 a mis Chwefror 2025. Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1.**

## Canfyddiadau allweddol

11 Ar y cyfan, canfuom **fod gan IGDC strategaeth eglur ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i fod yn ennyn ymgysylltiad ei randdeiliaid yn weddol dda. Fodd bynnag, mae angen iddo ddefnyddio ymgysylltu fel modd i gysoni ei flaenoriaethau â'i randdeiliaid, sicrhau digon o adnoddau ymgysylltu a gwella prosesau dysgu ac adrodd mewn perthynas ag adborth rhanddeiliaid.**

12 Caiff y canfyddiadau sy'n ategu ein casgliadau ar y cyfan eu crynhoi isod dan y penawdau canlynol:

- cynllunio gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- ymateb i weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid; and
- monitro ac addasu gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid.

# Cynllunio gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

13 Fe wnaethom ystyried:

- a oes gan IGDC gynllun cyflawni sy'n eglur, wedi'i gostio ac yn cynnwys terfynau amser i danategu ei strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- a oes gan IGDC ddulliau effeithiol i adnabod y rhanddeiliaid y mae angen iddo ymgysylltu â hwy; ac
- a yw IGDC wedi adnabod yn glir pwy sy'n gyfrifol am arwain a chyflawni gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

14 Canfuom **fod gan IGDC strategaeth eglur ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a ategir gan gynllun gweithredu manwl. Fodd bynnag, ceir risgiau i gyflawni'r rhain am nad oes digon o adnoddau i gefnogi'r Tîm Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol.**

## Cynllun cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

15 Mae IGDC yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid. Mae ei gynlluniau strategol[2] yn amcanu at ei wneud yn 'bartner dibynadwy' i GIG Cymru. Mae arno eisiau bod yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd da. Mae ei Strategaeth Ymgysylltu (y strategaeth) a gyhoeddwyd yn 2023 a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn tanategu ei gynlluniau strategol ehangach yn effeithiol. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar 'conglfaen ymgysylltu' sy'n darparu'r seilwaith a'r llwyfan angenrheidiol i gyrraedd ei nodau, sef:

- creu diwylliant o ymgysylltu effeithiol, gan wella sgiliau ac adnoddau IGDC;
- meithrin partneriaethau, rhwydweithiau a fforymau strategol cryf;
- cael ei gydnabod fel arweinydd o ran datblygu technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd da ar gyfer y GIG; a
- gweithredu fel sefydliad hyblyg ac ymatebol, gan wrando ar anghenion rhanddeiliaid ac ymdrin â hwy.

16 Mae'r strategaeth yn gyfoes gydag amcanion eglur, a llinellau amser a chamau gweithredu priodol. Mae'n cynnwys mesurau o lwyddiant, arweinwyr a enwir, a phroses adrodd ar berfformiad.

17 Nid oes gan y strategaeth gyllideb, ac nid yw'n adnabod yr adnoddau ariannol sy'n ofynnol i'w chyflawni. Er ei fod wedi buddsoddi yn y tîm Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol ac mewn cymorth ehangach gan ei dîm cyfathrebu, mae

[2] Strategaeth Sefydliadol 2024-2030 a Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2024-27

cyflawni'r strategaeth yn dal i fod yn risg oherwydd methiant i adnabod digon o adnoddau i wneud y gwaith sy'n ofynnol.

18 Rhoddodd y diweddariad i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2025 drosolwg ar faint y gwaith sy'n ofynnol i roi argymhellion adolygiad Atos ar waith. Mae IGDC wedi penodi Uwch Swyddog Ymgysylltu am gyfnod penodedig i arwain y gwaith hwn. Fodd bynnag, fe wnaeth eto amlygu diffyg capasiti ar y cyfan i roi camau gweithredu Atos ar waith mewn modd amserol. Mae angen i IGDC fynd ati'n rheolaidd i adolygu adnoddau a rhoi camau gweithredu effeithiol ar waith i liniaru'r risgiau. **(Argymhelliad 1)**

## Adnabod rhanddeiliaid

19 Mae mapio rhanddeiliaid yn flaenoriaeth allweddol i IGDC. Ei nod yw cynnwys y bobl iawn â'r sgiliau ac awdurdod angenrheidiol i gyflawni rhaglenni. Mae gan IGDC nifer o bartneriaethau, ac mae wedi gwneud gwaith i adnabod a mapio ei randdeiliaid allweddol. Fe wnaeth y gwaith i ddatblygu ei strategaeth ymgysylltu a'i Strategaeth Gyfathrebu a gyhoeddwyd yn 2023 adnabod rhestr gynhwysfawr o 15 math o randdeiliaid[3] a'u hanghenion strategol.

20 Mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu proffiliau rhanddeiliaid. O ganlyniad i hyn mae timau gweithredol yn gwneud eu gwaith mapio eu hunain gyda chyfrifoldeb diffiniedig am ymgysylltu. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl ac mae angen ymdrech o'r newydd. Fe wnaeth adolygiad Atos argymell hefyd bod IGDC yn mapio rhanddeiliaid ar gyfer ei raglenni digidol. Mewn ymateb, mae IGDC yn dechrau mapio ei ofynion ymgysylltu ar gyfer ei raglenni, prosiectau a gwasanaethau.

21 Mae IGDC yn cydnabod yr angen am ymgysylltu cadarn â chlinigwyr. Er ei fod yn cefnogi ac yn ennyn ymgysylltiad clinigwyr gofal sylfaenol yn dda, mae IGDC yn ei chael hi'n anos ennyn ymgysylltiad clinigwyr a'u cynnwys mewn rhaglenni digidol gofal eilaidd. Mae adolygiad Atos hefyd yn amlygu nad yw llawer o glinigwyr yn deall rôl IGDC. Dylai cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gyda chlinigwyr ddal i fod yn nod allweddol i IGDC. Mae'n amlwg bod angen i IGDC ymdrin â'r mater hwn, ac fe ddylai ystyried dulliau gwahanol ar gyfer denu neu gymell ymgysylltu clinigol. **(Argymhelliad 2)**

22 Rôl IGDC mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwasanaethau digidol integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae wedi datblygu rhaglenni gan gynnwys Cysylltu Gofal[4] a'r Adnodd Data Cenedlaethol[5]. Yn 2023, fe bwysleisiodd Pwyllgor

[3] Mae rhanddeiliaid yn cynnwys Cyrff a Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, cyrff proffesiynol, cyflenwyr a chontractwyr.

[4] Rhaglen newydd a sefydlwyd i ddisodli System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wrth iddi gyrraedd diwedd ei hoes yw Cysylltu Gofal.

[5] Platfform canolog sy'n casglu ac yn integreiddio data iechyd a gofal cymdeithasol o bob rhan o Gymru yw'r Adnodd Data Cenedlaethol.

Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) Senedd Cymru yr angen am ymgysylltu â phartneriaethau ehangach. Argymhellodd yn ffurfiol fod IGDC yn cynyddu ei ymgysylltiad â'r canlynol:

- y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat;
- byrddau partneriaeth rhanbarthol; a hefyd
- y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

23 Mae ymateb gweddol gynhwysfawr IGDC yn dynodi sut y mae'n ymgysylltu â phartneriaid gofal cymdeithasol a rhanbarthol, a'r camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â rhaglenni digidol iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae gan IGDC a Gofal Cymdeithasol Cymru femorandwm cyd-ddealltwriaeth ar yr Adnodd Data Cenedlaethol, ond mae angen rhagor o waith i nodi gofynion ymgysylltu ar gyfer Cysylltu Gofal.

### Cyfrifoldebau am arwain a chyflawni gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid

24 Ceir cyfrifoldeb trosfwaol eglur ymhlith y weithrediaeth ac uwch arweinwyr am ymgysylltu, a chyfrifoldebau wedi'u dyrannu yn y Tîm Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol. Mae IGDC hefyd wedi nodi cyfrifoldeb swyddogion arweiniol am bob cam gweithredu yn ei strategaeth a gyhoeddwyd yn 2023. Fodd bynnag, mae adolygiad Atos yn dynodi bod angen i rai rolau a chyfrifoldebau ymgysylltu gweithredol fod yn fwy eglur. Mewn ymateb, mae IGDC yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ac mae wedi cynnal diwrnod a gweithdai arweinyddiaeth i drafod a chynllunio ei gamau gweithredu. Mae wedi adnabod cydlynydd arweiniol cyflawni, arweinydd cyfrifol a noddwyr gweithredol i roi cymorth i gyflawni ei gamau gwella. Mae IGDC hefyd yn sefydlu grŵp ymgynghorol rhanddeiliaid allanol. Mae'r aelodau arfaethedig yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Gweithrediaeth y GIG, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Gofal Cymdeithasol, a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae cylch gorchwyl drafft y grŵp yma'n aros i gael ei gymeradwyo, ond rydym yn deall y bydd ffocws cychwynnol y grŵp ar roi argymhellion Atos ar waith.

## Cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

25 Fe wnaethom ystyried a yw IGDC:

- yn cyflawni gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn unol â'i strategaeth gan ddefnyddio hyn i ddeall anghenion digidol ei randdeiliaid; ac
- yn cyfleu ei gynlluniau cyflawni'n effeithiol i randdeiliaid perthnasol, ynghyd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni penodol.

26 Canfuom fod **IGDC yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n weddol dda gyda rhanddeiliaid ond bod angen iddo ddeall blaenoriaethau digidol GIG Cymru yn well.**

## Defnyddio gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion

27 Mae gan IGDC raglen ymgysylltu gref sy'n cynnwys y canlynol fel rhan o'r drefn arferol:

- cyfarfodydd gyda sefydliadau'r GIG;
- defnyddio grwpiau Cymru gyfan[6];
- ymgysylltu gweithredol rheolaidd â phrosiectau/rhaglenni digidol; a
- chyfarfodydd tîm gweithredol gyda chyrff allweddol GIG Cymru yn flynyddol neu ddwywaith y flwyddyn, gyda sesiynau cynllunio bob deufis.

28 Mae IGDC hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, partneriaid masnachol, cyrff y trydydd sector, cleifion a'r cyhoedd trwy arolygon ac ymgyngoriadau. Maent yn cynnal gweithdai a chyfarfodydd gyda grwpiau amrywiol i drafod blaenoriaethau digidol.

29 Mae ein Hasesiad Strwythuredig 2024 hefyd yn amlygu rôl IGDC mewn ymgysylltu strategol ar lefel y bwrdd. Fe bwysleisiom ni mor bwysig ydyw bod aelodau'r bwrdd yn ymweld â gwasanaethau iechyd rheng-flaen. Yn awr mae'n adeiladu ar ei ymweliad diweddar â gogledd-ddwyrain Cymru ac yn parhau â hyn mewn ardaloedd eraill. Dylai'r dull hwn helpu aelodau'r bwrdd i ddeall materion digidol a wynebir mewn gwasanaethau a meithrin ymgysylltu gwell ar lefel y bwrdd.

30 Un o rolau allweddol IGDC yw ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel cyflawni rhaglenni. Dengys adborth fod eu staff yn wybodus, yn barod i helpu, ac yn dda am ddatrys materion. Mae adolygiad Atos yn gam cadarnhaol o ran deall anghenion rhanddeiliaid ac fe amlygodd effaith gadarnhaol IGDC. Fodd bynnag, canfu bryderon hefyd:

- roedd 43.2% o ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd gweithio gydag IGDC;
- roedd 42.8% yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan o weithgarwch datblygu polisi a strategaethau;
- roedd 50.4% yn meddwl nad oedd IGDC yn deall eu gwaith;
- roedd IGDC weithiau'n defnyddio'r un dull wrth ymdrin â phawb, gan golli cyfleoedd i rannu adnoddau; ac
- mae angen cydweithio mwy strwythuredig a chyfathrebu gwell.

31 Mae IGDC yn profi materion gyda chyflymder ac effeithiolrwydd wrth gyflawni rhaglenni digidol. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod IGDC wedi cael ei uwchgyfeirio'n ddiweddar ar fframwaith uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf cryn dipyn o ymgysylltu, nid yw IGDC a rhanddeiliaid yn rhannu nac yn dod i ddeall anghenion a blaenoriaethau sefydliadol ei gilydd yn rheolaidd. Mae adolygiad Atos yn awgrymu gwella prosesau cynllunio ar y cyd, rhannu gwybodaeth, dylunio sy'n

[6] Mae Grwpiau Cymru Gyfan yn cynnwys Cadeiryddion, Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Meddygol, neu arweinwyr digidol, y GIG ledled Cymru gyfan, neu ymgysylltiad gweithredol rheolaidd â'r gwaith ar brosiectau neu raglenni digidol.

canolbwyntio ar ddefnyddwyr, a darparu diweddariadau am benderfyniadau. Gallai'r rhain helpu i leddfu rhai o'r heriau a enwir uchod.

32 Mae gan staff rheng-flaen rôl allweddol mewn ymgysylltu hefyd. Fodd bynnag, fe adnabuom rai pryderon a achoswyd gan effaith trosiant staff a allai effeithio ar allu IGDC i feithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid o ddydd i ddydd mewn rolau allweddol. Mae ein Hasesiad Strwythuredig 2024 yn gwneud sylw ynglŷn â risg ac effaith y model Cyllid Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol sydd, oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, yn rhoi anogaeth ar gyfer recriwtio byrdymor ac yn cynyddu trosiant. Felly mae angen i IGDC ystyried sut y gall barhau i ymgysylltu â'i randdeiliaid allweddol yn yr hinsawdd hon. **(Argymhelliad 3)**

33 Mae'r canfyddiadau uchod yn dangos pwysigrwydd dull ymgysylltu IGDC. Mae adolygiad Atos yn awgrymu 11 o gamau gweithredu ar gyfer cydweithio, gwrando ac ymatebolrwydd gwell. Mae rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith yn hollbwysig i wella trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid

34 Mae IGDC yn cyfathrebu'n dda fel rheol, ac yn cwrdd yn rheolaidd, gyda'i randdeiliaid allweddol, gan ddarparu diweddariadau am ddatblygiadau a risgiau o ran datrysiadau digidol. Mae IGDC yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth a diweddariadau ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth reolaidd trwy ffrydiau newyddion ac ar y cyfryngau cymdeithasol, diweddariadau am raglenni digidol cyffredinol, astudiaethau achos, a diweddariadau am raglenni digidol penodol, megis meddyginiaethau a gofal sylfaenol. Mae IGDC yn cynnal digwyddiadau rheolaidd gyda rhanddeiliaid. Mae meysydd allweddol yn y 12 mis diwethaf yn cynnwys diweddariad am yr Adnodd Data Cenedlaethol yn hydref 2024 a cheisio barn rhanddeiliaid ynglŷn â'i strategaeth hirdymor. Mae wedi nodi'n glir beth yw'r cynllun cyfathrebu ar gyfer y cyfnod nesaf. Roedd cyfarfod ei Fwrdd ym mis Ionawr yn cynnwys adroddiad a oedd yn nodi sut yr oedd cyfathrebu gyda rhanddeiliaid yn cael ei ddatblygu ymhellach. Serch hynny, mae adolygiad Atos yn awgrymu ffyrdd pellach o wella tryloywder a chyfathrebu.

35 Mae ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2024 yn gwneud sylw ynglŷn â sut y mae IGDC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar flaenoriaethau'r CTCI. Er bod IGDC yn deall y risgiau, pryderon a heriau cyffredin, mae'n cael trafferth diwallu anghenion pawb. Mae CTCI 2024-27 yn dal i gynnwys nifer o flaenoriaethau sydd heb adnoddau wedi'u darparu ar eu cyfer, sy'n eu gwneud yn anodd i'w cyflawni ac a allai niweidio perthnasoedd ac enw da. Mae ar fyrddau iechyd ac IGDC angen agenda gyffredin mewn perthynas â'r trawsnewid digidol sy'n ofynnol. Mae angen i IGDC gyfleu'n glir wrth randdeiliaid beth yw ei gynlluniau, risgiau, a chamau gweithredu ac ymgorffori'r rhain yn ei broses gynllunio ac ym mhroses gynllunio ehangach GIG Cymru i fynd ati'n effeithiol ar y cyd i greu datrysiadau digidol ar gyfer y GIG (**Argymhellion 4.1 a 4.2)**

## Ymateb i weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

36 Fe wnaethom ystyried a yw IGDC yn defnyddio'r adborth y mae'n ei gael fel sail i gryfhau ei berthnasoedd â rhanddeiliaid ac a yw'n adrodd wrth bwyllgorau a/neu'r Bwrdd ar ganlyniadau adborth rhanddeiliaid.

37 Canfuom **fod angen i IGDC wella sut y mae'n adrodd ar adborth rhanddeiliaid, yn dysgu ohono ac yn ymateb iddo.**

38 Daw adborth rhanddeiliaid o ddau faes gan mwyaf, sef adborth ar lefel weithredol ar wasanaethau, ac ymatebion ehangach i weithgareddau ymgysylltu pwrpasol. Mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig â rhaglenni digidol. Mae adolygiad Atos yn amlygu bod 41.8% o randdeiliaid yn ymgysylltu ag IGDC yn wythnosol neu'n fwy mynych. Mae cryn dipyn o hyn ar ffurf ymgysylltu gweithredol o ddydd i ddydd. Mae swyddogion yn darparu adborth ar berfformiad desg wasanaeth IGDC ar gyfer y Bwrdd wrth gyflwyno'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad Sefydliadol (IOPR). Mae hyn yn dangos perfformiad, bodlonrwydd cwsmeriaid ac adborth ar ffurf testun agored. Ceir cyfradd ymateb isel i geisiadau am adborth, ond lle darperir hyn, mae'r rhan fwyaf o adborth yn gadarnhaol, gyda chyfradd bodlonrwydd uwch na 95%[7]. Er bod hyn yn gadarnhaol, gallai IGDC ehangu ei adroddiad ar berfformiad ymhellach i gynnwys enghreifftiau o adborth negyddol, ei ymateb, yr hyn y mae wedi ei ddysgu a'r hyn fydd yn cael ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.

39 Ceir enghreifftiau lle gall IGDC ddangos ei fod wedi gweithredu ar adborth ar ei raglenni digidol. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2024, roedd adborth ar ap y GIG oddi wrth gleifion a'r cyhoedd yn cynnwys ceisiadau am nodweddion defnyddiol ac fe helpodd i ddarparu gwybodaeth am flaenoriaethau cleifion. Rhannodd IGDC yr enghraifft hon gyda'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni a darparodd sicrwydd ei fod yn creu cynllun a map ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Fodd bynnag, yn aml, nid yw diweddariadau am raglenni digidol yn cynnwys adborth manwl gan randdeiliaid. Er enghraifft, roedd diweddariad mis Mai 2024 am y System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS2.0) a'r System Caffael Gwybodaeth Radioleg (RISP) yn syml yn rhestru timau cymorth yn lle darparu adborth gan randdeiliaid a'r camau gweithredu y mae wedi eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a adnabuwyd. Dylai'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni a'r Bwrdd geisio sicrwydd bod ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn effeithiol ac yn ymatebol ar draws holl raglenni digidol IGDC. **(Argymhelliad 5)**

40 Un o nodau allweddol rhaglenni digidol IGDC yw cyflawni manteision i gyrff iechyd neu GIG Cymru. Mae'n cynllunio manteision gyda'i berchnogion gwasanaethau a rhanddeiliaid. Rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol ar wireddu manteision ym mis Ionawr 2024 sgôr sicrwydd rhesymol, gan nodi bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn dda. Fodd bynnag, fe amlygodd yr angen i gwblhau'r Fframwaith Manteision, sicrhau hod gan fanteision linell sylfaen a pherchennog, a datblygu proses dracio. Mae IGDC wedi ymdrin â'r argymhellion hynny.

[7] Rydym yn nodi bod y gyfradd ymateb yn gyson is na 10%.

# Monitro ac addasu gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

41 Fe wnaethom ystyried a yw IGDC:

- yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r modd y cyflawnir ei gynlluniau rhanddeiliaid; ac
- yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac addasu ei strategaeth ymgysylltu a chynlluniau cyflawni ategol i sicrhau eu bod yn rhoi adlewyrchiad digonol o'r hinsawdd y mae'r AIA yn gweithredu ynddi.

42 Canfuom **fod IGDC yn dda am fonitro'r modd y cyflawnir ei strategaeth a'i gynllun gweithredu ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae angen i IGDC sicrhau ei fod yn cadw ei ffocws ar gyflawni'r camau gweithredu a gododd o adolygiad Atos, yn enwedig y rhai nad yw'n llwyr gyfrifol am eu cyflawni.**

## Monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau ac y cyrhaeddir nodau ymgysylltu â rhanddeiliaid

43 Mae IGDC yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro ei strategaeth a chynllun gweithredu ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau manwl ddwywaith y flwyddyn ac adroddiadau cryno rheolaidd ar gynnydd. Mae'r rhain yn adrodd ar gynnydd, camau gweithredu, a chyflawniadau, ond nid yw'n hawdd dwyn cyswllt uniongyrchol yn ôl â'r camau gweithredu arfaethedig yn y strategaeth a chynllun gweithredu gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2023. Mae ei Adroddiad Blynyddol diwethaf hefyd yn darparu diweddariad defnyddiol am y cynnydd gyda'r strategaeth ymgysylltu. Mae hyn yn galluogi rhanddeiliaid allweddol i ddeall y cynnydd ar y cyfan. Fodd bynnag, gallai gryfhau ei ddull trwy nodi camau gweithredu a gwblhawyd, newidiadau i'r cynllun, ac unrhyw amcanion neu weithgareddau newydd. **(Argymhelliad 6)**

44 Fe arweiniodd adolygiad Atos at adroddiad sy'n cynnwys 27 o argymhellion i wella trefniadau ymgysylltu IGDC a'r modd y mae'n gweithio ar draws y system. Cafodd y canfyddiadau ac ymateb IGDC eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2025. Mae IGDC wedi sefydlu Grŵp Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Rhanddeiliaid a Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid Allanol, gyda'u cyfarfodydd cyntaf wedi'u trefnu ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2025. Bydd gan y grwpiau hyn rolau allweddol o ran monitro a chyflawni'r cynllun gweithredu.

45 Mae IGDC yn gwneud cynnydd gyda'i gamau gweithredu penodol yn adroddiad Atos ac mae arweinwyr wedi'u henwi ar gyfer pob un ohonynt. Mae dau gam gweithredu eisoes wedi eu cwblhau, ac mae 14 ar y gweill. Mae'r 11 cam gweithredu sy'n weddill yn ymwneud â gwelliannau ar draws y system gyfan. Mae IGDC yn ennyn ymgysylltiad partneriaid i sicrhau eu cymorth gyda chamau gweithredu sy'n eistedd gydag un sefydliad neu fwy. Dylai IGDC sicrhau ei fod yn

cynnal trefniadau monitro ac adrodd effeithiol nes bod pob un o’r 27 o gamau gweithredu wedi cael eu cyflawni’n llawn.

## Adolygu ac addasu’r strategaeth a chynlluniau cyflawni ymgysylltu â rhanddeiliaid

46 Mae IGDC yn adolygu ac yn addasu ei strategaeth ymgysylltu a chynlluniau cyflawni ar eu cyfer mewn modd effeithiol. Yn 2023, fe leihaodd nifer y camau gweithredu o 52 (o’r Strategaeth Ymgysylltu wreiddiol a gyhoeddwyd yn 2021) i 23. Dylanwadwyd ar y newid hwn gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid, twf yn nifer a graddfa’r prosiectau/rhaglenni, symudedd cynyddol staff, effaith y pandemig ar wasanaethau digidol a dyhead am ddull cydgysylltiedig. Yn awr mae IGDC yn bwriadu defnyddio canfyddiadau Atos i adolygu a diweddaru ei strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid.

# Argymhellion

47 Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r argymhellion a gododd o'n gwaith. Caiff ymateb IGDC i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion**

| **Argymhellion** |
|---|
| A1 Dylai IGDC sicrhau bod digon o adnoddau o fewn y Tîm Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol i arwain a chyflawni camau gweithredu sydd heb eu cwblhau yn y Strategaeth Ymgysylltu a chamau gweithredu a gododd o adolygiad Atos. **Paragraff 18** |
| A2 Dylai IGDC sicrhau bod systemau a phrosesau yn eu lle i sefydlu ymgysylltiad clinigol effeithiol ar bob rhaglen ddigidol allweddol. Fel rhan o hyn, dylai IGDC ystyried sut y gall ddenu neu gymell ymgysylltiad clinigol, yn enwedig mewn rhaglenni digidol clinigol allweddol. **Paragraff 21** |
| A3 Dylai IGDC sicrhau cydnerthedd yn ei drefniadau ymgysylltu i gynnal parhad a pherthnasoedd parhaus â rhanddeiliaid lle ceir trosiant staff mewn rolau allweddol. **Paragraff 32** |
| A4 Dylai IGDC wneud y canlynol:<br>A4.1 defnyddio ymgysylltiad â rhanddeiliaid i gryfhau sut y mae'n cysoni'r gofynion o ran digidol yn ei CTCI ei hun a rhai ei randdeiliaid allweddol fel eu bod, lle y bo'n berthnasol, yn cael eu hymgorffori yn ei broses gynllunio ei hun a phroses gynllunio ehangach GIG Cymru; ac<br>A4.2 cyfleu cynlluniau cyflawni, risgiau a chamau lliniarol yn eglur i randdeiliaid fel eu bod wedi'u hysbysu'n briodol. **Paragraff 35** |
| A5 Dylai diweddariadau ar raglenni digidol ar gyfer y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni a'r Bwrdd ddarparu sicrwydd fel rhan o'r drefn arferol ynghylch ymateb IGDC i adborth rhanddeiliaid. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o adborth a gafwyd ar fentrau/rhaglenni allweddol a chamau gweithredu y mae wedi eu cymryd mewn ymateb. **Paragraff 39** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A6 | Dylai diweddariadau i'r Bwrdd am gyflawni'r Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid fod yn fwy eglur o ran camau gweithredu a gwblhawyd, newidiadau i gynlluniau, ac amcanion neu weithgareddau newydd. **Paragraff 43** |

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosyn 2 isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.**

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Cyfweliadau** | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion ac Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd IGDC<br>• Prif Weithredwr<br>• Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth<br>• Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd<br>• Aelod Annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch<br>• Aelod Annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni<br>• Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol<br>• Uwch Reolwr Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol<br>• Cynrychiolydd o Atos |
| Arsylwadau | Fe wnaethom arsylwi ar y canlynol:<br>• Cyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd; a<br>• Sesiwn datblygu'r Bwrdd. |

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau a adolygwyd | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau gan gynnwys, ymhlith eraill:<br>• Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau<br>• Adolygiad Rhanddeiliaid Atos 2024<br>• Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu IGDC<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol<br>• Adroddiadau Blynyddol IGDC<br>• Strategaeth Sefydliadol 2024-2030<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27<br>• Strategaeth Gyfathrebu<br>• Adroddiadau Integredig ar Berfformiad Sefydliadol<br>• Diweddariadau am y Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br>• Diweddariadau am Sicrwydd ynghylch Rhaglenni Digidol<br>• Adroddiad ar y cyd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd 'Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru' |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 3: ymateb IGDC i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol am y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai IGDC sicrhau bod digon o adnoddau o fewn y Tîm Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol i arwain a chyflawni camau gweithredu sydd heb eu cwblhau yn y Strategaeth Ymgysylltu a chamau gweithredu a gododd o adolygiad Atos. | Mae IGDC wedi penodi adnodd pwrpasol i arwain gwaith i gyflawni Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Rhanddeiliaid.<br><br>Mae IGDC yn newid i fodel pecyn gwaith, gan gynyddu adnoddau craidd a chaniatáu model mwy hyblyg ar gyfer darparu adnoddau i ddiwallu anghenion newidiol rhaglenni a gwasanaethau ar wahanol adegau, sy'n cynnwys gydag Ymgysylltu. | Chwefror 2025<br><br>Mawrth 2026 | Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol (Wedi'i gwblhau)<br><br>Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol am y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai IGDC sicrhau bod systemau a phrosesau yn eu lle i sefydlu ymgysylltiad clinigol effeithiol ar bob rhaglen ddigidol allweddol. Fel rhan o hyn, dylai IGDC ystyried sut y gall ddenu neu gymell ymgysylltiad clinigol, yn enwedig mewn rhaglenni digidol clinigol allweddol. | Mae IGDC wedi cryfhau ymgysylltiad clinigol ar Grwpiau a Byrddau sicrwydd rhaglenni ac mae wedi penodi nifer o arweinwyr clinigol a Chyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol.<br><br>Bydd IGDC yn mireinio ei ddull ymgysylltu clinigol ymhellach, a fydd yn cynnwys cysoni â deilliannau'r Adolygiad o Lywodraethu ar gyfer Digidol a Data a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. | Ebrill 2025<br><br>Rhagfyr 2025 | Wedi'i gwblhau<br><br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Newid Busnes a Gwybodeg Glinigol |
| A3 | Dylai IGDC sicrhau cydnerthedd yn ei drefniadau ymgysylltu i gynnal parhad a pherthnasoedd parhaus â rhanddeiliaid lle ceir trosiant staff mewn rolau allweddol. | Bydd IGDC yn sicrhau bod gan yr holl raglenni gynlluniau ymgysylltu gyda mapiau rhanddeiliaid ac adroddiadau rheolaidd i sicrhau cysondeb a bod gwersi a mewnwelediadau'n cael eu rhannu. | Mawrth 2026 | Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol (gan weithio gyda Phennaeth y Swyddfa Rheoli Portffolios) |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol am y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Dylai IGDC wneud y canlynol:<br>R4.1 defnyddio ymgysylltiad â rhanddeiliaid i gryfhau sut y mae'n cysoni'r gofynion o ran digidol yn ei CTCI ei hun a rhai ei randdeiliaid allweddol fel eu bod, lle y bo'n berthnasol, yn cael eu hymgorffori yn ei broses gynllunio ei hun a phroses gynllunio ehangach GIG Cymru; ac<br>A4.2 cyfleu cynlluniau cyflawni, risgiau a chamau lliniarol yn eglur i randdeiliaid fel eu bod wedi'u hysbysu'n briodol. | Bydd IGDC yn defnyddio'r sesiynau ymgysylltu ar lefel weithredol gyda holl bartneriaid GIG Cymru i rannu a thrafod cysoni blaenoriaethau a chanlyniadau CTCI a bydd yn hyrwyddo'r sesiynau cynllunio-ar-y-cyd ymhellach gyda phartneriaid yn GIG Cymru.<br><br>Bydd IGDC yn defnyddio prosesau ac offer safonedig i rannu a chyfleu mapiau cynhyrchion.<br><br>Bydd IGDC yn diweddaru trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli gwasanaethau IGDC. | Rhagfyr 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Mawrth 2026 | Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol<br><br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyflawni Digidol/ Cyfarwyddwr Cysylltiol, Cofnod Sengl Cynhyrchion<br><br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoli Gwasanaethau |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol am y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A5 | Dylai diweddariadau ar raglenni digidol ar gyfer y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni a'r Bwrdd ddarparu sicrwydd fel rhan o'r drefn arferol ynghylch ymateb IGDC i adborth rhanddeiliaid. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o adborth a gafwyd ar fentrau/rhaglenni allweddol a chamau gweithredu y mae wedi eu cymryd mewn ymateb. | Bydd IGDC yn gwreiddio defnydd o gynlluniau ac adroddiadau ymgysylltu safonol ar draws holl raglenni IGDC. | Mawrth 2026 | Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol (gan weithio gyda Phennaeth y Swyddfa Rheoli Portffolios) |
| A6 | Dylai diweddariadau i'r Bwrdd am gyflawni'r Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid fod yn fwy eglur o ran camau gweithredu a gwblhawyd, newidiadau i gynlluniau, ac amcanion neu weithgareddau newydd. | Mae IGDC yn tracio cynnydd yn erbyn cynlluniau trwy'r broses reoli ar gyfer y CTCI a cherrig milltir misol. Bydd diweddariadau yn y dyfodol i Fwrdd Rheoli IGDC am Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cynnwys cyfeiriad at fanylion y rhain fel atodiad. | Mawrth 2026 | Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.